# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2340A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 6

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 6

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 8

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam cyntaf Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2023, i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fe ataliodd Llywodraeth Cymru'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Fe nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd baratoi cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio o'r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom ystyried trefniadau cynllunio AaGIC ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21.

# Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom **fod trefniadau AaGIC ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredol a monitro'r modd y cânt eu cyflawni'n gadarn.**

7 Cyflwynodd AaGIC ei Gynllun Chwarteri 3-4 a'r Set Ddata Sylfaenol berthnasol i Lywodraeth Cymru o fewn y ffrâm amser benodedig. Cafodd y cynllun ei gymeradwyo trwy weithredu gan y Cadeirydd yn dilyn ymgysylltu â'r Bwrdd a chymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol. Er nad yw llawer o fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol berthnasol i AaGIC, fe ymatebodd yn gadarnhaol trwy drosi'r fframwaith fel ei fod yn gweddu i gylch gwaith ac amcanion strategol y sefydliad a thrwy nodi ei gyfraniad i'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad ar ei ôl, a chynllunio ar gyfer y gaeaf.

8 Mae trefniadau cynllunio AaGIC yn gadarn. Bu ymgysylltu pellgyrhaeddol â rhanddeiliaid er gwaethaf y cyfyngiadau amser, ac fe gynhaliwyd adolygiad o amcanion strategol yng nghyd-destun gofynion uniongyrchol a'r adnoddau a oedd ar gael. Mae AaGIC wedi cadw ffocws ar ddysgu, lles staff a gweithio mewn partneriaeth. Mae AaGIC yn adolygu lefelau adnoddau cynllunio gan bod ei gapasiti ar hyn o bryd yn annigonol i wireddu ei uchelgais i weithredu fel swyddfa rheoli rhaglenni.

9 Mae gan AaGIC drefniadau effeithiol i oruchwylio'r modd y cyflawnir ei gynlluniau gweithredol, sydd bellach wedi'u sefydlu yn ei Fframwaith Perfformiad a gymeradwywyd yn ddiweddar. Yn unol â'r Fframwaith hwnnw, mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau ar berfformiad yn chwarterol.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un).

# Adroddiad manwl

## Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21

11 Fe roddodd ein gwaith ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar (Cynllun Chwarteri 3-4) 2020-21 AaGIC yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

12 Canfuom **fod Cynllun Chwarteri 3-4 AaGIC yn ateb gofynion Llywodraeth Cymru a'i fod wedi cael ei gyflwyno o fewn y raddfa amser ofynnol yn dilyn ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol.**

13 Cyflwynodd AaGIC ei Gynllun Chwarteri 3-4 a'r Set Ddata Sylfaenol berthnasol i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Hydref 2020. Oherwydd yr amserlen cyfarfodydd, nid oedd modd i'r cynllun gael ei drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfod cyhoeddus gan y Bwrdd o fewn y raddfa amser ofynnol. Yn lle hynny, fe'i cymeradwywyd trwy weithredu gan y Cadeirydd. Fodd bynnag, cafodd y cynllun drafft ei gylchredeg i Aelodau Annibynnol ar gyfer sylwadau a chafodd gymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno. Cafodd y Bwrdd y cynllun terfynol i'w nodi yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, gyda'r papurau ar gael ar wefan gyhoeddus AaGIC.

14 Nid yw'r sefydliad yn darparu gwasanaethau rheng-flaen y GIG, felly nid yw llawer o fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol berthnasol i AaGIC. Fodd bynnag, fe barhaodd i ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion trwy drosi'r fframwaith fel ei fod yn gweddu i gylch gwaith ac amcanion strategol y sefydliad a thrwy nodi ei gyfraniad i'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad ar ei ôl, a chynllunio ar gyfer y gaeaf. Er enghraifft, mae'n nodi cynlluniau i ddarparu hyfforddiant adsefydlu, gwella hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a'i waith parhaus i gefnogi gofal critigol. Mae AaGIC wedi adolygu'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 ac mae hefyd wedi cwblhau'r metrigau perthnasol yn y Set Ddata Sylfaenol ategol.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

15 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau AaGIC ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i ategu ei ymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol, ac adfer gwasanaethau mwy rheolaidd.

16 Canfuom **fod trefniadau cynllunio AaGIC yn gadarn, yn hyblyg ac wedi'u tanategu gan ymgysylltiad da â rhanddeiliaid.**

17 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn barhad ar gynlluniau gweithredol chwarteri 1 a 2. Mae'r cynlluniau hyn ill tri wedi'u gwreiddio yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cymeradwy AaGIC ar gyfer y cyfnod 2020-2023. Mae'r cynllun yn ymgorffori adborth Llywodraeth Cymru ar y cynllun blaenorol, a oedd yn

gadarnhaol gan mwyaf ac yn darparu awgrymiadau ynghylch ffyrdd ychwanegol y gallai AaGIC roi cymorth i'r GIG ehangach.

18 Nid yw dull cynllunio AaGIC ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 wedi newid yn sylfaenol. Er gwaethaf y cyfyngiadau o ran amser, fe ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun, gan adeiladu ar y gweithgarwch cynhwysfawr i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gyflawnwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu CTCI 2020-2023. Fe wnaeth y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu ymgysylltu'n gynnar â phartneriaid i drafod blaenoriaethau, gan gynnwys prif weithredwyr a chyfarwyddwyr y gweithlu ym mhob corff iechyd, Gofal Cymdeithasol Cymru, nifer o Golegau Brenhinol, a Chyngor y Deoniaid. Ystyriwyd fod hyn yn allweddol i gynnal hyder rhanddeiliaid yn y lefel ymgysylltu sylfaenol. Oherwydd yr amser byr ar gyfer paratoi a chyflwyno Cynllun Chwarteri 3-4, ni fu staff AaGIC yn rhan o'i ddatblygu. Ond mae'r gweithgarwch ymgysylltu i ddatblygu cynllun blynyddol 2020-21 wedi bod yn fwy helaeth, gan gynnwys ymwneud gan staff ehangach. Mae AaGIC hefyd yn glir ynghylch rheolaeth barhaus rhanddeiliaid megis cynrychiolaeth ar grwpiau cenedlaethol a chadeirio'r rhain, cynnal deialog a chytundebau gyda chyrff cyfatebol yn y gwledydd cartref, cynnal digwyddiadau arddangos ar-lein ar gyfer partneriaid a diweddaru gwefan allanol AaGIC yn rheolaidd ar gyfer myfyrwyr, hyfforddeion, darparwyr addysg a chyflogwyr.

19 Fe wnaeth AaGIC adolygu ei amcanion a chanlyniadau strategol yng nghyd-destun y capasiti a oedd ar gael a'r adnoddau ychwanegol yr oedd eu hangen i ategu Cynllun Gwarchod y Gaeaf. O ganlyniad, cafodd saith o'r amcanion gwreiddiol yn y CTCI eu gohirio a chafodd tri amcan newydd eu hychwanegu. Mae'r amcanion newydd wedi cael eu datblygu i helpu i fonitro gofynion ychwanegol Cynllun Gwarchod y Gaeaf a datblygiad strategol mewn perthynas â gwyddorau gofal iechyd. Hefyd, fe roddodd y broses gynllunio ystyriaeth i berfformiad yn erbyn cynlluniau gweithredol chwarteri 1 a 2, er nad adroddwyd ar hyn yng Nghynllun Chwarteri 3-4.

20 Mae AaGIC wedi sicrhau hyblygrwydd yn ei Gynllun Chwarteri 3-4 trwy ddatblygu cerrig milltir ar wahân ar gyfer chwarteri 3 a 4. Mae hyn yn galluogi'r sefydliad i fod yn fwy ymatebol i amgylchiadau a risgiau newidiol, gan gymryd camau cywirol fel y bo angen. Mae'r Tîm Rheoli Argyfwng (TRhA), sy'n cwrdd yn wythnosol, yn defnyddio diweddariadau ar berfformiad a gwybodaeth ehangach am ymateb y GIG i wneud penderfyniadau ynghylch sut i ymateb i bwysau cyfredol. Mae AaGIC wedi adolygu aelodaeth ei Dîm Rheoli Argyfwng a oedd, yn 2020, yn rhy fawr o bosibl i wneud penderfyniadau cyflym. Yn gadarnhaol, mae AaGIC wedi myfyrio ynghylch hyn ac wedi ailgyfansoddi ei Dîm Rheoli Argyfwng, gan sefydlu dwy gell i'w gefnogi.

21 Fel a nodir uchod, mae cynlluniau chwarterol AaGIC wedi'u gwreiddio yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2020-2023, sy'n seiliedig ar ymchwil ac ymgysylltu helaeth. Mae'r mathau o wybodaeth sy'n bwydo i mewn i dybiaethau cynllunio AaGIC yn cynnwys data a thueddiadau o ran y gweithlu a myfyrwyr, polisïau iechyd, ymchwil, ac ymgysylltiad â phartneriaid.

22 Cafodd Cynllun Chwarteri 3-4 ei ddatblygu gan y Tîm Cynllunio, Perfformiad a Gwasanaethau Corfforaethol, gyda chymorth ac ymwneud gan y Tîm Gweithredol, uwch arweinwyr a'r Bwrdd. Mae'r Tîm Cynllunio, Perfformiad a Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys tri swyddog â chylch gwaith cynllunio, gan gynnwys y cyfarwyddwr newydd. Mae'r tîm yn effeithiol, ac mae rolau a chyfrifoldebau'n eglur. Fodd bynnag, mae AaGIC o'r farn bod lefel yr adnoddau ar hyn o bryd yn annigonol i gefnogi ei uchelgais i weithredu fel swyddfa rheoli rhaglenni hefyd. Mae capasiti a galluedd y tîm yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol ar gyfer 2021-22.

23 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn egluro'n benodol sut y bydd AaGIC yn gweithio gyda'i bartneriaid a system ehangach y GIG i gyflawni ei amcanion. Er enghraifft, mae AaGIC wedi paratoi cynllun ar y cyd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal ffocws ar gyflawni Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2019. Mae hefyd yn nodi camau gweithredu ar gyfer gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i wella cydnerthedd yn ystod y gaeaf mewn cartrefi gofal a chydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ddatblygu fframwaith addysg a hyfforddiant Cymru gyfan ar gyfer brysbennu dros y ffôn.

24 Mae AaGIC wedi cynnal ffocws ar ddysgu'n barhaus ac wedi adolygu ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. Wedi'i atodi wrth Gynllun Chwarteri 3-4 mae papur briffio sy'n amlygu'r gwersi cadarnhaol o COVID-19, gyda ffocws ar yr hyn y mae hynny'n ei olygu i addysg a hyfforddiant iechyd yng Nghymru. Fe ymgynghorwyd â staff AaGIC ynghylch y trefniadau gweithio cyfredol.

## Trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

25 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau AaGIC ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Chwarteri 3-4 ac yr adroddir ar hynny.

26 Canfuom **fod gan AaGIC drefniadau effeithiol i oruchwylio'r modd y cyflawnir ei gynlluniau gweithredol sydd bellach wedi'u sefydlu yn ei Fframwaith Perfformiad a gymeradwywyd yn ddiweddar.**

27 Fel a nodwyd uchod, mae Cynllun Chwarteri 3-4 AaGIC yn nodi cerrig milltir ar wahân ar gyfer chwarteri 3 a 4, a'r rhai sydd i'w gohirio tan Gynllun Blynyddol 2021-22. Mae'r cerrig milltir wedi'u mapio yn erbyn nodau ac amcanion strategol y sefydliad, gan ddarparu cyswllt eglur â CTCI cymeradwy 2020-2023.

28 Yn 2020, canfuom fod cynllun gweithredol chwarter 1 wedi cael ei adolygu'n rheolaidd gan uwch reolwyr a'r Bwrdd. Ar gyfer cynllun gweithredol chwarter 2, fe ddatblygodd AaGIC fframwaith i fonitro a thracio'r cynnydd o ran ei gyflawni. Mae'r un fframwaith wedi cael ei ddefnyddio i fonitro Cynllun Chwarteri 3-4. Yn ymarferol, taenlen weithredol yw'r fframwaith y mae'r tîm cynllunio'n ei diweddaru'n gyson gan gynnal cyswllt â'r uwch swyddogion cyfrifol perthnasol.

29 Ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Fframwaith Perfformiad AaGIC. Mae hwn yn nodi cylch chwarterol ar gyfer adrodd wrth y Bwrdd, sydd wedi'i alinio'n well â cherrig milltir y CTCI a'r cynllun blynyddol. Yn unol â hynny, cafodd y Bwrdd adroddiad perfformiad chwarter 3 ym mis Mawrth 2021, a hwnnw'n cynnwys adroddiad naratif a dangosfwrdd perfformiad i gyd-fynd ag ef. Yn dilyn yr adolygiad o'i amcanion strategol, fe wnaeth AaGIC adnabod pa rai o'i amcanion strategol i gyflawni yn eu herbyn yn ystod chwarteri 3-4. Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos, ar ddiwedd chwarter 3, ar y cyfan, bod perfformiad ar y trywydd iawn. Mae'r Bwrdd i fod i gael adroddiad perfformiad chwarter 4/diwedd y flwyddyn ym mis Mai 2021.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.